S4C

**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 418**
**28 Mehefin, 2018, S4C Llanisien, Caerdydd**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | Huw Jones | (Cadeirydd) |
| | Elan Closs Stephens | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) eitemau 1-11 |
| | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | John Davies | (Aelod o'r Bwrdd) |
| **Staff S4C:** | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Phil Williams | (Ysgrifennydd yr Awdurdod) |
| | Elin Morris | (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol) |
| | Steve Thomas | (Ymgynghorydd Strategol a Pholisi) – eitemau 7, 9 |
| | Llion Iwan | (Pennaeth Dosbarthu Cynnwys) – eitem 10 |
| | Rhidian Dafydd | (Rheolwr Rhaglen Waith Yr Egin) – eitemau 10, 12 |
| | Catrin Hughes Roberts | (Cyfarwyddwr Partneriaethau) – eitem 11 |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwy-ydd Ysgrifennydd yr Awdurdod) |
| **Ymddiheuriadau:** | Guto Harri | (Aelod o'r Bwrdd) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Gofynnwyd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion Cyfarfod Bwrdd rhif 417 a gynhaliwyd ar Mai 17eg**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 417 a gynhaliwyd ar Mai 17eg, 2018. Cymeradwywyd y cofnodion.

3. **Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 417**

**3.1.1 Amrywiaeth**

Nodwyd yr angen i sicrhau fod y 4 pwynt gweithredu parthed Amrywiaeth yn cael eu cyflawni'n brydlon, gyda diweddariad i'w gyflwyno i'r Bwrdd.

**Noswseithiau Gwylwyr**

Nodwyd fod tri dyddiad newydd wedi eu hawgrymu, a gofynnwyd i'r Aelodau roi gwybod a yw'r dyddiadau a'r lleoliadau canlynol yn gyfleus:

19eg Medi – Y Trallwng;

27ain Medi – ardal Llanbedr Pont Steffan neu Castell Newydd Emlyn; a
18fed Hydref – Llanbedr PS/Castell Newydd Emlyn neu Llandudno.

**Eitem 5.1.2 – Perthynas S4C gydag Ofcom**

Nodwyd fod cyfarfod cychwynnol cadarnhaol wedi'i gynnal gydag Ofcom Cymru er mwyn trafod ffurfioli'r berthynas statudol. Bydd cyfarfod arfaethedig y Cadeirydd ac OE gyda chadeirydd Ofcom, yr Arglwydd Burns yn gyfle i drafod dyfodol y berthynas.

**Loteri Cymru**

Nododd EM fod Sterling bellach wedi cwblhau pryniant busnes Loteri Cymru.

4. **Pwyntiau Gweithredu**

Cyflwynwyd y Pwyntiau Gweithredu, a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

**Eitem 20 – Cynllun Hyfforddi / TAC**

[**Crynodeb:** Cyfeiriwyd at Gynllun Hyfforddi TAC. Roeddynt wedi datgan awydd i gydweithio gydag S4C yn y cyfarfod gyda'r Awdurdod yn 2017. Mae trafodaethau penodol ar y pwnc ar y gweill.]

**Eitem 23 – Archifo**

[**Crynodeb:** Holwyd pryd y bydd modd i'r Aelodau ystyried cynllun arfaethedig â'r Llyfrgell Genedlaethol o ran prosiectau archif. Disgwylir adrodd i'r Awdurdod ym mis Medi. Yn ogystal â chydweithio gyda'r Llyfrgell Genedlaethol o ran sefydlu Archif Darlledu mae'r maes archifo yn cynnwys y defnydd o archif S4C gan gwmnïau cynhyrchu a churadu'r archif fel rhan o strategaeth ddigidol S4C.]

**Strategaeth Amrywiaeth**

Holwyd am gynlluniau ar gyfer prentisiaethau o fewn S4C a nodwyd elfen o bryder fod prentisiaethau yn cael eu hystyried fel rhan o gynllun amrywiaeth yn hytrach na strategaeth hyfforddiant. Nododd OE fod CW bellach yn gyfrifol am lunio polisi S4C yn y maes ac y byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod maes o law.

5. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

**Cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol**

Adroddwyd fod cyfarfod buddiol wedi ei gynnal gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, Matt Hancock, yn ystod Gwyll y Gelli. Diolchwyd i GH am drefnu'r cyfarfod. Yn ystod y sesiwn banel, cafwyd cwestiwn o'r llawr am ddarlledu yng Nghymru, a chafwyd ateb cadarnhaol ganddo.

**Cyfarfod gyda'r Gweinidog, Margot James**

Cafwyd cyfarfod adeiladol hefyd gyda'r Gweinidog Margot James.

**Penodiadau i'r Bwrdd**

**[Crynodeb:** Disgwylir cadarnhad am benodiadau newydd i'r Bwrdd a chyhoeddiad am ail-benodiadau'n fuan.]

**Y Pwyllgor Materion Cymreig**

Bydd y Cadeirydd ac OE yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Materion Cymreig yn fuan. Nododd y Cadeirydd mai bwriad y sesiwn yw trafod yr Adolygiad o S4C ac ymateb S4C. Bydd Euryn Ogwen hefyd yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor.

6. **Adroddiad Blynyddol 2017-18**

Cyflwynwyd fersiwn ddrafft o Adroddiad Blynyddol 2017-18 i sylw'r Aelodau.

Nodwyd fod yr adroddiad wedi ei seilio ar naratif gadarnhaol am berfformiad y flwyddyn, gyda ffynhonellau data cynhwysfawr i gefnogi'r naratif. Roedd yn cyflwyno asesiad o berfformiad gwasanaeth S4C ar deledu ac arlein, gan wneud hynny mewn cyd-destun tymor hir er mwyn sicrhau nad yw unrhyw newidiadau blwyddyn ar flwyddyn yn effeithio'n ormdol ar ganfyddiad perfformiad y gwasanaeth.

Bwriedir gosod yr adroddiad gerbron y Senedd ar 16 Gorffennaf a'i chyhoeddi ar 17 Gorffennaf.

**[Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am gymariaethau gyda sianelau eraill ac awgrymwyd y dylid ystyried cynnwys graff yn dangos cymhariaeth os oedd modd ei gyflwyno'n syml.]

Cymeradwyodd y Bwrdd yr adroddiad drafft, gan ddirprwyo i'r Cadeirydd yr hawl i gwblhau'r ddogfen ac i ymateb i unrhyw sylwadau pellach a ddaw gan DCMS neu'r Archwilwyr Allanol.

7. **Cyflwyno diweddariad cynnydd ar faterion strwythurol yn deillio o'r Adolygiad o S4C**

Cyflwynodd PW ddiweddariad ar fateriol strwythurol sy'n deillio o'r Adolygiad.

Esboniwyd fod swyddogion DCMS yn awyddus i weithredu nifer o'r newidiadau strwythurol gan ddefnyddio deddfwriaeth gynradd, ond o ystyried y pynciau eraill ar amserlen y Senedd, nid oedd ym amlwg i S4C a fyddai cyfle o fewn yr amserlen seneddol yn ystod y blynyddoedd nesaf i gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer S4C. Nid yw S4C yn argymell defnyddio deddfwriaeth gynradd er mwyn cyflawni'r newidiadau, ac roedd yr adroddiad cynnydd a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn nodi sut y gellid cyflawni mwyafrif yr argymhellion trwy gytundeb rhwng S4C a DCMS, yn hytrach nac aros am ddeddfwriaeth.

Roedd y trafodaethau diweddar gyda swyddogion DCMS wedi bod yn gadarnhaol, gyda DCMS yn cytuno gydag awgrymiadau S4C o ran sut i weithredu'r argymhellion.

Nodwyd fod nifer o fateron lle byddai angen trafodaethau pellach gyda DCMS, megis cwestiynau manwl am nifer yr aelodau, y broses benodi a lefel cydnabyddiaeth aelodau'r bwrdd unedol, a threfniadau ar gyfer penodi'r NAO yn archwilwyr allanol S4C. Roedd hefyd angen parhau i drafod cwestiynau ariannu, ond y bwriad oedd nodi'r rhain fel cwestiynau technegol yn unig am y tro, ac yn faterion y bydd angen eu hystyried ymhellach maes o law wrth drafod yr Adolygiad Gwariant Nesaf a setliad nesaf Ffi'r Drwydded. Nid oedd bwriad i barhau i drafod cwestiynau ariannu ar hyn o bryd.

Cymeradwyodd y Bwrdd y diweddariad ar faterion strwythurol, gan nodi y dylid parhau i drafod y materion hyn gyda swyddogion DCMS er mwyn cyflwyno diweddariad pellach ym mis Gorffennaf.

Cyflwynodd ST ddiweddariad ar gynlluniau S4C mewn perthynas â materion partneriaethau, digidol a masnachol. Nodwyd y byddai cyfle pellach nes ymlaen yn y cyfarfod i drafod y strategaethau digidol a phartneriaethau.

## 8. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

### 8.1 Holiadur Staff

Adroddwyd fod holiadur wedi ei lunio er mwyn ceisio barn staff parthed gweithio yn S4C. Nodwyd fod y Bwrdd wedi bod yn gofyn am weithredu holiadur o'r fath ers nifer o flynyddoedd, a diolchwyd i OE am weithredu ar y pwnc.

Nodwyd y dylid ceisio barn y staff am adleoli i Gaerfyrddin, ac awgrymwyd y gellid gwneud hyn ar ddiwedd y broses er mwyn derbyn adborth ar y prosiect, yn hytrach nac fel rhan o'r holiadur staff.

Esboniwyd mai bwriad yr holiadur yw i ganfod barn y staff ar hyn o bryd, ac i ddysgu unrhyw wersi perthnasol, ac yna i asesu barn y staff ymhen blwyddyn, ac ar ddiwedd y prosiect adleoli er mwyn dysgu unrhyw wersi o ran rhedeg prosiectau cymhleth o fewn S4C.

Awgrymwyd y dylid cynnwys cwestiwn yn ymwneud â phwysigrwydd gweithio mewn gweithle Cymraeg a chwestiwn am Fwrdd yr Awdurdod a'i rôl. Nodwyd fod cwestiynau 47 a 48 yr un peth, ac y dylid eu haddasu.

**Cymeradwyodd y Bwrdd yr holiadur gyda'r ychwanegiadau uchod.**

### 8.2 Loteri Cymru

**[Crynodeb:** Cyflwynodd OE adroddiad ar ymwneud S4C â Loteri Cymru. Roedd yr adroddiad wedi ystyried y broses o asesu darpar fuddsoddiadau a'r dull o asesu perfformiad rheolaidd y buddsoddiadau.]

Bydd y strategaeth fasnachol newydd yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod ym mis Gorffennaf.

8.3 **Codiad cyflog cyffredinol ar gyfer staff**

Cyflwynodd OE adroddiad ynghyd ag argymhelliad parthed codiad cyflog cyffredinol ar gyfer staff S4C.

[**Crynodeb:** Nodwyd fod y BBC wedi cytuno ar becyn o godiadau cyflog a newidiadau i delerau staff gyda BECTU. Yn dilyn trafodaeth, cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhelliad a gyflwynwyd. Nodwyd y dylid trafod codiad cyflog 2019-20 gyda BECTU yn dilyn yr adleoli.]

Cafwyd trafodaeth am fabwysiadu'r amcan i fod yn gyflogwr *real living wage*. Nodwyd y byddai newid o'r fath yn effeithio ar nifer fechan o aelodau staff.

Cymeradwywyd yr egwyddor i S4C fabwysiadu'r nod i fod yn gyflogwr 'real living wage', ac felly cynnig isafswm cyflog blynyddol o £16,200.

9. **Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni 2017/18 a Datganiad Polisi Rhaglenni 2018/19**

Cyflwynodd AR a ST Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni 2017/18 a Datganiad Polisi Rhaglenni 2018/19.

[**Crynodeb:** Nodwyd fod cyflwyno'r Datganiad a'r Adolygiad i Ofcom yn ddyletswydd statudol. Cafwyd trafodaeth am y dogfennau a nodwyd yr angen i danlinellu pwysigrwydd elfennau penodol o'r gwasanaeth: megis, arlwy unigryw Cymraeg ein chwaraeon byw; y gwasanaeth newyddion sy'n cyflwyno straeon o Gymru benbaladr; a'r gwerth i ailddarllediadau penodol a thrysorau'r archif. Roedd angen cyfeirio at y mannau heriol, fel plant yn eu harddegau a'r ymgais i'w cyrraedd, ac i sicrhau fod y ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad ein rhaglenni yn glir.]

Cymeradwywyd y Datganiad Polisi Rhaglenni ac Adolygiad y Datganiad Polisi Rhaglenni, gan awdurdodi OE i gwblhau'r drafftio yn dilyn sylwadau'r Bwrdd. Bydd y dogfennau'n cael eu danfon i Ofcom ac yn cael eu cyhoeddi ar wefan S4C.

10. **Strategaeth Ddigidol S4C**

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd diweddariad parthed strategaeth ddigidol newydd S4C. Cyflwynwyd pedwar opsiwn o ran yr isadeiledd a chynllun ar gyfer y llwyfannau ar-lein. Roedd angen i S4C barhau i gynnal chwaraewr ei hun ar hyn o bryd ac i'w diweddaru yn gyson. Awgrymwyd y dylid parhau i drafod gyda'r BBC sut y gall tîm yr iPlayer gynorthwyo S4C.]

Cymeradwywyd Opsiwn 2 y Cynllun Digidol, gan nodi'r angen i barhau i asesu fforddiadwyedd yr opsiynau o ran gallu S4C i gynnig darpariaeth ar ystod o lwyfannau Smart TV.

11. **Strategaeth Partneriaethau**

Cyflwynodd CHR y Strategaeth Partneriaethau newydd. Esboniodd fod y strategaeth newydd wedi ei seilio ar yr amcan strategol i ddenu gwylwyr a'r angen i ychwanegu gwerth i gynnwys S4C, ac i gydweithio lle mae deilliannau mesuriadwy i S4C. Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar feysydd dysgwyr, addysg, plant a phobl ifanc.

Bydd y strategaeth newydd yn canolbwyntio ar lai o bartneriaethau, ond gan sicrhau fod y partneriaethau hynny'n darparu gwerth clir i S4C. Bydd angen esbonio maes o law i nifer o'r partneriaid presennol a darpar bartneriaid paham na fydd S4C yn dymuno parhau i bartnera gyda nhw.

Yn dilyn trafodaeth am y strategaeth, cymeradwyodd y Bwrdd y Strategaeth Partneriaethau, gan nodi'r angen i gyflwyno cynllun gweithredu a blaenoriaethau i'r Bwrdd erbyn fis Medi.

12. **Diweddariad ar y Cynllun Adleoli a Chydleoli**

Cyflwynodd RhD ddiweddariad ar y cynllun adleoli.

[**Crynodeb:** Roedd llawer o waith wedi ei gyflawni ar y ffrwd gwaith staffio a chafwyd diweddariad ar y cynnig diweddar. Roedd y gwaith yn cynnwys adnabod risgiau o fewn adrannau unigol a thrafodwyd sut i'w leddfu.]

Bydd swyddfa dros dro yn agor ar gampws Caerfyrddin ar 16 Gorffennaf, a fydd yn caniatáu i staff sy'n dymuno gwneud ddechrau gweithio yng Nghaerfyrddin cyn symud i'r Egin.

Nodwyd y bydd yr holl staff sy'n trosglwyddo i'r Egin wedi symud erbyn 24 Medi.

Roedd cynlluniau ar y gweill ar gyfer agor a lansio'r Egin, gan gynnwys lasniad ar gyfer S4C a lansiad gan y Drindod ar gyfer y ganolfan ei hun.

Roedd y gwaith adeiladu yn parhau yn unol ag amserlen y prosiect.

[**Crynodeb:** Disgwylir cyhoeddiad gan y Brifysgol ar 16eg Gorffennaf parthed tenantiaid yr Egin.]

**Cynlluniau ariannol Cydleoli**

Holwyd am ddiweddariad parthed cynlluniau ariannol y Prosiect Cydleoli, a nodwyd mai'r unig newid oedd un ychwanegiad ar gyfer costau archif. Bydd y BBC yn diweddaru'r model ariannol unwaith bydd y broses gaffael ar gyfer yr offer archifo wedi ei chwblhau.

**Ystad Llanisien**

[**Crynodeb:** Nodwyd fod gwaith dichonolrwydd yn parhau o ran yr opsiynau ar gyfer Ystad Llanisien. Roedd ymgynghorwyr eiddo yn cynorthwyo gyda'r cynlluniau.]

Cyflwynir diweddariad ac argymhelliad i'r Bwrdd o ran dyfodol ystâd Llanisien maes o law.

13. **Rhaglenni'r mis aeth heibio**

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio. Clywyd canmoliaeth i'r arlwy o Eisteddfod yr Urdd yn Llanelwedd ac i gyfres Y Fets gan nodi'r straeon difyr a'r personoliaethau cryf yn eu cyflwyno. Nodwyd bod Cic Lan

yr Archif wedi apelio at gynulleidfa newydd, gydag ymateb cadarnhaol yn cael ei gyflwyno i'r Wifren.]

14. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

**[Crynodeb:** Cyfeiriwyd at ddau gŵyn a dderbyniwyd yn ddiweddar. Roedd swyddogion yn paratoi ymatebion.]

15. **Rhaglen Waith 2018/19**

Cyflwynwyd Rhaglen Waith Bwrdd yr Awdurdod er gwybodaeth.

16. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.